***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

# Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

**2024 dsc 3**

## RHAN 6

GORCHMYNION CYDSYNIAD SEILWAITH

*Effaith gorchmynion cydsyniad seilwaith*

### 96 Heriau cyfreithiol

(1) Ni chaiff llys ystyried achos i gwestiynu gorchymyn cydsyniad seilwaith oni fo—

(a) yr achos yn cael ei ddwyn drwy gais am adolygiad barnwrol, a

(b) y ffurflen gais wedi ei ffeilio cyn diwedd y cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau drannoeth y diwrnod—

(i) y cyhoeddir y gorchymyn, neu

(ii) os yw'n hwyrach, y diwrnod y cyhoeddir y datganiad o'r rhesymau dros wneud y gorchymyn.

(2) Ni chaiff llys ystyried achos i gwestiynu gwrthod cydsyniad seilwaith oni fo—

(a) yr achos yn cael ei ddwyn drwy gais am adolygiad barnwrol, a

(b) y ffurflen gais wedi ei ffeilio cyn diwedd y cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau drannoeth y diwrnod y cyhoeddir y datganiad o'r rhesymau dros y gwrthodiad.

(3) Ni chaiff llys ystyried achos i gwestiynu penderfyniad o dan adran 33 i beidio â derbyn cais yn gais dilys am gydsyniad seilwaith oni fo—

(a) yr achos yn cael ei ddwyn drwy gais am adolygiad barnwrol, a

(b) y ffurflen gais wedi ei ffeilio cyn diwedd y cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau drannoeth y diwrnod yr hysbysir y ceisydd fel sy'n ofynnol gan is-adran (4) o'r adran honno.

(4) Ni chaiff llys ystyried achos i gwestiynu penderfyniad o dan adran 87 mewn perthynas â gwall mewn dogfen penderfyniad oni fo—

(a) yr achos yn cael ei ddwyn drwy gais am adolygiad barnwrol, a

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

(b) y ffurflen gais wedi ei ffeilio cyn diwedd y cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau drannoeth y diwrnod y rhoddir hysbysiad i'r ceisydd o dan adran 87(5) neu, os yw'n ofynnol i'r cywiriad gael ei wneud drwy orchymyn a gynhwysir mewn offeryn statudol, drannoeth y diwrnod y cyhoeddir y gorchymyn.

(5) Ni chaiff llys ystyried achos i gwestiynu penderfyniad o dan adran 90(1)i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith oni fo—

(a) yr achos yn cael ei ddwyn drwy gais am adolygiad barnwrol, a

(b) y ffurflen gais wedi ei ffeilio cyn diwedd y cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau drannoeth y diwrnod y rhoddir hysbysiad o'r newid o dan adran 91(6) neu, os yw'n ofynnol i'r newid neu'r dirymiad gael ei wneud drwy orchymyn a gynhwysir mewn offeryn statudol, drannoeth y diwrnod y cyhoeddir y gorchymyn sy'n gwneud y newid neu'r dirymiad.

(6) Ni chaiff llys ystyried achos i gwestiynu unrhyw beth arall a wneir, neu nas gwneir, gan awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru mewn perthynas â chais am gydsyniad seilwaith neu gais i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith oni fo—

(a) yr achos yn cael ei ddwyn drwy gais am adolygiad barnwrol, a

(b) y ffurflen gais wedi ei ffeilio cyn diwedd y cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau drannoeth y diwrnod perthnasol.

(7) Ystyr "y diwrnod perthnasol" yw—

(a) mewn perthynas â chais am gydsyniad seilwaith, y diwrnod—

(i) y tynnir y cais yn ôḷ,

(ii) y cyhoeddir y gorchymyn cydsyniad seilwaith neu (os yw'n hwyrach) y cyhoeddir y datganiad o'r rhesymau dros wneud y gorchymyn, neu

(iii) y cyhoeddir y datganiad o'r rhesymau dros wrthod cydsyniad seilwaith;

(b) mewn perthynas â chais i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith, diwrnod a bennir mewn rheoliadau.

(8) Nid yw is-adrannau (6) a (7) yn gymwys mewn perthynas ag—

(a) methiant i benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith neu gais i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith, neu

(b) unrhyw beth sy'n gohirio (neu'n debygol o ohirio) y penderfyniad ar y cais hwnnw.